

# Adroddiad Trosolwg:

## Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant

2019 – 2024





**Medi 2024**



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

HMICFRS
Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services

Estyn

agic hiw
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Cynnwys


Rhagair 3

Cefndir 4

Crynodeb 5

Yr hyn a nodwyd gennym 6

Casgliad 25

Beth nesaf 27

Atodiad 1: Termau sy'n adlewyrchu'r cyfrannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2: Rhestr termau 29


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49987, ISBN digidol 978-1-83625-621-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r adroddiad hwn sy'n cyflwyno canfyddiadau ein cyfres o arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA). Ffocws y gwaith hwn oedd deall i ba raddau mae asiantaethau partner yn llwyddo i gyfathrebu a chydweithio i hyrwyddo lles plant a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed.

Gwyddom o brosesau sicrwydd ein harolygiaethau a'r gwaith JICPA diweddar hwn fod canlyniadau cadarnhaol i blant yn dibynnu ar drefniadau partneriaethau diogelu iach ar draws sefydliadau allweddol. Yn fwyaf arwyddocaol, lle ceir trefniadau da ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, ceir gwell dealltwriaeth o fywyd plentyn.

Mae adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau achos ledled Cymru a'r DU yn parhau i dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng asiantaethau. Mae sicrhau bod trefniadau priodol ar waith yn hanfodol i weithwyr proffesiynol sy'n cydweithio ar achosion diogelu, er mwyn iddynt allu deall y risgiau i'r plant a chymryd y camau angenrheidiol i'w cadw'n ddiogel.

Mae ein harolygiadau wedi amlygu beth y mae'r heriau hyn yn ei olygu mewn gwirionedd i blant, rhieni a gofalwyr, ac i staff, ar amrywiol adegau drwy gydol y broses diogelu ac amddiffyn plant.

Yn y pen draw, caiff effaith prosesau diogelu gwael ei theimlo gan blant sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu niwed, a'u teuluoedd, drwy beidio â chael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn y modd mwyaf amserol. Mae'n hanfodol sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan wasanaethau statudol a gwasanaethau trydydd sector ar gael yn brydlon a hynny drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig. Gall nodi anghenion plentyn yn gynnar gynyddu'r ffactorau amddiffynnol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar ddiogelwch a llesiant plentyn a lleihau'r ffactorau risg a allai fod yn cael effaith andwyol ar fywyd plentyn.

Mae'r gyfres hon o arolygiadau ar y cyd wedi cynnig cyfle i'n harolygiaethau ddod at ei gilydd i dynnu sylw at bwysigrwydd trefniadau diogelu amlasiantaethol, ac mae ein gwaith wedi ein galluogi i nodi meysydd i'w gwella, ac i dynnu sylw at feysydd o ymarfer da.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r aelodau o staff sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu a gwasanaethau prawf, sy'n ymdrechu i ddarparu cymorth diogel ac effeithiol i blant a phobl ifanc ar sail feunyddiol. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn darparu sail gryf a chadarnhaol i wella arni.

I gloi, hoffem ddiolch i'r aelodau o staff a helpodd i lywio ein gwaith drwy rannu gwybodaeth, cymryd rhan yn ein cyfweliadau a'n grwpiau ffocws, a thrwy gwblhau ein harolygon. Yn ogystal, i'r plant a'r bobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr a helpodd drwy gymryd rhan yn ein gwaith.



**Gillian Baranski**
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru



**Owen Evans**
Prif Arolygydd
Estyn



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd



**Michelle Skeer**
Arolygydd Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF

# Cefndir

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant ym mhob un o'r chwe bwrdd diogelu rhanbarthol rhwng 2019 a 2024. Cymerodd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi (HMIP) ran yn y ddau Arolygiad ar y Cyd peilot cyntaf o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) a oedd yn canolbwyntio ar gamfanteisio ar blant. Roedd gweddill ein rhaglen arolygu yn canolbwyntio ar amddiffyn plant 11 oed neu'n iau.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein prif ganfyddiadau thematig ar draws yr arolygiadau hyn yn ogystal ag effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol ledled Cymru.

Roedd ein harolygiadau yn adolygu'r canlynol:

- yr ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeulustod pan fyddant yn cael eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau diogelu
- gwaith i amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt
- y trefniadau ar gyfer arwain a rheoli gwaith amddiffyn plant;
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn.



# Crynodeb

Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant a diogelwch plant y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth hyddysg o faint yr angen a'r risg yn eu hardal. Maent yn deall profiadau plant a theuluoedd y mae angen help arnynt ac yn cydweithio i gynllunio'n strategol ar eu cyfer. Mae arweinwyr o fewn sefydliadau yn cyfleu gweledigaeth a rennir ac yn cydweithio mewn ffordd ragweithiol. Caiff ymarfer gweithredol ei gefnogi mewn ffordd gadarnhaol gan drefniadau diogelu rhanbarthol.

Mae prosesau diogelu yn fwyaf effeithiol pan geir dealltwriaeth a rennir ar draws partneriaethau. Mae gweithwyr proffesiynol hynod ymrwymedig, llawn cymhelliant yng Nghymru ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o natur y gwaith mewn perthynas â phlant a theuluoedd y mae risg y byddant yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt.

Mae llawer o awdurdodau lleol a phartneriaid yn gweithio'n unol ag ethos clir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan hyrwyddo a chefnogi ymdrechion i sicrhau bod plant yn derbyn gofal gan aelodau o'u teulu lle bynnag y bo hynny er eu lles pennaf. Fodd bynnag, nid oes gan rai partneriaethau fodel clir o ymyriadau i'w defnyddio wrth weithio gyda theuluoedd. Mae'r modelau mwyaf buddiol yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i deuluoedd ei newid er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn rhoi ffocws ar gryfderau a'r ffactorau a all eu helpu i newid er mwyn lleihau'r risg o niwed.

Mae awdurdodau lleol a phartneriaid wedi ymateb i alw digynsail drwy gyflogi aelodau ychwanegol o staff fel gweithwyr asiantaeth dros dro er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'n anodd creu gweithlu parhaol gan ar yr un pryd gynllunio i leihau'r ddibyniaeth ar staff dros dro. Mae gweithlu ansefydlog yn atal cyfleoedd i blant feithrin cydberthnasau sefydlog, ymddiriedus ac arwyddocaol â gweithiwr cyson. Mae plant, rhieni a gofalwyr yn nodi bod newidiadau staff cyson yn ei gwneud hi'n anos iddynt symud ymlaen yn eu bywydau. Mewn rhai ardaloedd, mae asiantaethau partner, fel heddluoedd a byrddau iechyd, yn ei chael hi'n anodd darparu'r adnoddau sydd eu hangen o ystyried y cynnydd mewn gweithgarwch amddiffyn plant.

Yn gyffredinol, mae systemau addas ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol pan fydd plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, risg o gael ei esgeuluso a risg y bydd rhywun yn camfanteisio arno. Yn ystod cyfres arolygiadau JICPA, llwyddwyd i feithrin gwell dealltwriaeth o gamfanteisio troseddol a'r rhyng-gydberthnasau cymhleth rhwng hyn a mathau eraill o gamfanteisio. Mae ymateb i achosion diogelu cyd-destunol yn cynnig dimensiwn cymharol newydd i'r broses o reoli niwed y tu allan i'r teulu. Mae angen sicrhau bod arbenigedd sy'n gysylltiedig â chamfanteisio a'r cysyniad o ddiogelu cyd-destunol yn rhan annatod o ymarfer a sicrhau dealltwriaeth lawn ar draws grwpiau proffesiynol.

Ledled Cymru, mae amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael i gefnogi plant a diwallu anghenion unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithio o dan amgylchiadau cynyddol gymhleth, mae asiantaethau yn dangos gwydnwch wrth nodi ymyriadau, cynnig gwasanaethau a gweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

# Yr hyn a nodwyd gennym



# Trefniadau partneriaeth amlasiantaethol

## Cryfderau

Mae plant o bob cwr o Gymru yn dweud wrthym eu bod yn gallu llunio cydberthnasau da â'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw o amrywiaeth o asiantaethau. Er gwaethaf yr her recriwtio ym mhob rhan o'r sector, mae gan rai gweithwyr cymdeithasol gydberthnasau hirdymor â phobl ifanc. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae ymarferwyr ym mhob rhan o'r bartneriaeth yn gwneud ymdrechion sylweddol i ymgysylltu â phlant. Nododd ein hadolygiad yn yr ardal honno enghreifftiau lle roedd swyddogion yr heddlu yn ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd ac yn gofyn am eu barn, eu sylwadau a'u pryderon yn ystod ymweliadau a chyfweliadau atal. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn i'w weld yn gyson ledled Cymru.

Mae nodweddion ymyriadau cynnar cryf yn seiliedig ar drefniadau partneriaeth cadarnhaol. Wrth ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeuluso, mae manteision cryf i gyd-leoli staff amlasiantaethol a llinellau cyfathrebu clir. Yng Nghasnewydd a Chaerdydd, er enghraifft, mae asiantaethau fel yr heddlu, yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi cydweithio i gyd-leoli staff mewn hybiau diogelu, gan eu galluogi i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau mewn modd amserol. Er enghraifft, yn Hwb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) Caerdydd, caiff gwybodaeth ei rhannu'n brydlon rhwng asiantaethau yn ystod cyfarfodydd cam-drin domestig amlasiantaethol dyddiol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae trefniadau gweithio agos yn amlwg rhwng partneriaid allweddol y tîm Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC), ac mae Uned Atgyfeiriadau'r Heddlu yn rhan o'r tîm hwnnw.

Mae llwybrau clir i hwyluso ymyriadau cynnar ac eglurder ynghylch atal niwed, ym maes cyfiawnder ieuenctid a gofal cymdeithasol, a phroses gyson a ddeellir yn dda i weithwyr proffesiynol atgyfeirio pryderon am blant at wasanaethau plant, yn hanfodol. Mae hyn yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn ymyriadau priodol ac amserol. Mae dull rhagweithiol er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth yn deall y trothwyon yn hollbwysig. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae cyfarfodydd adolygu cyfoedion amlasiantaethol yn cynnig cyfleoedd i drafod plant lle nodwyd materion gweithredol. Pan gânt eu cynnal mewn ffordd adeiladol â chyfraniad amlbartner, mae'r mathau hyn o fforymau yn cynnig cyfle ardderchog i feithrin dealltwriaeth gyffredin gan ar yr un pryd barchu rolau'r asiantaethau unigol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r prif bartneriaid statudol gymryd yr awenau a hwyluso trefniadau cydweithio.

Mae cwblhau Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) neu yn achos yr heddlu, Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd (PPN), yn gywir hefyd yn hanfodol fel rhan o broses effeithiol ar gyfer ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeuluso. Yng Nghasnewydd, mae'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol yn rhoi arweiniad clir i'r atgyfeiriwr er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn helpu wrth wneud penderfyniadau ac er mwyn sicrhau cysondeb yn y broses atgyfeirio. Pan wneir penderfyniad i beidio â gweithredu ymhellach mewn perthynas â Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd a dderbynnir gan hwb Casnewydd, bydd Tîm Ymyriadau Cynnar yn adolygu'r atgyfeiriadau hyn ac yn cysylltu â'r teulu ar yr un diwrnod.

Ar y cyfan, mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen eu helpu a'u hamddiffyn ac yn rhoi gwybod yn briodol am eu pryderon. Mae'r enghreifftiau gorau o ymarfer amddiffyn plant yn digwydd lle ceir dealltwriaeth a rennir o'r pryderon ynghylch niwed sylweddol a phan fo asiantaethau yn ystyried yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y plentyn. Yn Sir Ddinbych, roedd hyn yn amlwg mewn cynadleddau amddiffyn plant, sy'n gweithredu'n amlwg ar sail cryfderau, gan sicrhau ar yr un pryd bod cyswllt clir rhwng risg a diogelwch yn y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth (CASPP).

Ar y cyfan, ceir presenoldeb da gan bartneriaid mewn cyfarfodydd diogelu. Mae cynadleddau amddiffyn plant, yn enwedig Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol (ICPCC), yn fforymau effeithiol i rannu gwybodaeth, cynllunio

a gwneud penderfyniadau mewn modd amserol. Mae grwpiau amlasiantaethol yn bresennol yn y cynadleddau hyn. Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) a chadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant ran hanfodol i'w chwarae wrth oruchwylio ansawdd ymarfer ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth herio unrhyw achosion o oedi pan fo angen. Gall y rhan fwyaf o Swyddogion Adolygu Annibynnol roi blaenoriaeth i ymweld â phlant cyn cynnal adolygiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA), gan feithrin cydberthnasau ystyrlon a chyson â nhw.

Mae'r Paneli SPACE Well-being a drefnir yng Ngwent yn sicrhau dull gweithredu partneriaeth i deuluoedd sy'n defnyddio amrywiaeth o ymyriadau ataliol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n rhan o'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), yn aelod o'r Panel Ymyriadau Cynnar ac yn mynd gyda gweithwyr y tîm pan fyddant yn ymweld â chartrefi.

Er gwaethaf y galw ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ceir enghreifftiau gwych o staff CAMHS yn cydweithio i roi cymorth hanfodol i blant. Er enghraifft, lluniwyd llwybr hunan-niwed ar y cyd gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS) a CAMHS Sir Ddinbych er mwyn rheoli achosion o hunan-niwed a theimladau hunanladdol mewn ysgolion yn ddiogel. O ganlyniad, mae gan CAMHS aelodau dynodedig o staff i ymateb i bryderon a gaiff eu codi mewn lleoliadau addysg. Ym Mhowys, mae presenoldeb uwch-ymarferwyr CAMHS â chefndiroedd ym maes gwaith cymdeithasol wedi gwella dynameg y tîm a threfniadau cydweithio amlasiantaethol yn sylweddol. Mae'r gwaith rhwng yr awdurdod lleol a CAMHS yn rhagweithiol ac yn gydweithredol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae staff CAMHS yn gwneud galwadau ffôn dilynol i deuluoedd pan fydd pobl ifanc wedi colli apwyntiadau. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda phobl ifanc sydd o bosibl yn amharod i ymgysylltu.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn datblygu eu gwasanaethau therapiwtig eu hunain er mwyn llenwi bylchau mewn meysydd gwasanaeth. Roedd yr awdurdodau lleol hyn o'r farn na ddylid bod angen iddynt ariannu gwasanaethau therapiwtig ac mai byrddau iechyd lleol ddylai fod yn gyfrifol am dalu'r costau. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r awdurdod lleol wedi bod wrthi'n datblygu ei wasanaeth therapi mewnol ei hun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, sy'n cynnwys tîm therapi mewnol a thîm Cymorth Seicolegol Amlasiantaethol (MAPS) er mwyn helpu i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad lleoliadau.

Gwnaed cryn dipyn o waith mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu amrywiaeth o ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg o niwed a'r rhai sy'n destun Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth. Mae gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn darparu amrywiaeth eang a chyson o wasanaethau therapiwtig.

Mae Ymgyrch Encompass yn enghraifft arall o bartneriaeth effeithiol. Mae'r heddlu yn defnyddio rhybuddion gan Ymgyrch Encompass i anfon hysbysiadau cynnar i ysgolion am bobl ifanc y mae achosion o gam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae'r system hon yn galluogi ysgolion i ystyried pa gymorth y gellir ei roi i'r plentyn cyn iddo gyrraedd yr ysgol ar ddechrau'r dydd.

Yn ystod cyfres arolygiadau JICPA, roedd dulliau asesu risg yng Nghymru mewn perthynas â chamfanteisio yn datblygu ar wahanol gyfraddau. Ar y cyfan, mae partneriaid yn gweithio'n unol ag ethos a rennir mewn perthynas â diogelu plant y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Yng Nghasnewydd, mae darparwyr statudol a darparwyr trydydd sector, megis St Giles a Barnardo's, yn gweithio'n unol ag ethos a rennir mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc. Caiff gwasanaethau eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ataliol dargyfeiriol i blant y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt yn droseddol. Mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar droseddau cyfundrefnol difrifol ac ymyriadau cynnar wedi ymsefydlu'n gadarn ac maent yn rhoi cymorth ymarferol a chymorth gan gymheiriaid i blant y nodwyd eu bod yn wynebu risg.

Yng Ngwent, mae asiantaethau wedi cydweithio i ddatblygu adnodd Asesu Achosion o Gamfanteisio ar Blant. Mae'r adnodd hwn yn cyfuno ffactorau sy'n ystyried achosion o gamfanteisio'n rhywiol ac yn droseddol ar blant. Mae'n cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol gydweithio, rhannu gwybodaeth, gwerthuso risg drwy'r grŵp amlasiantaeth a datblygu cynlluniau i liniaru risg.

Mae model gweithio sy'n nodi achosion o niwed cyd-destunol mewn cymunedau ac yn ymdrin â nhw wedi cael ei ddatblygu yng Nghaerdydd. Mae model SAFE ('Safeguarding Adolescents from Exploitation') yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc wynebu risg o niwed neu gael niwed wrth i oedolion a phobl y tu allan i'r rhwydwaith teuluol gamfanteisio arnynt a'u cam-drin. Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Waddol Ieuenctid i gyflwyno prosiect Cadw'n Ddiogel, sy'n anelu at fynd i'r afael â thrais gan bobl ifanc a chamfanteisio troseddol.

Mae llawer o ranbarthau wedi cyflwyno cyfarfodydd Amlasiantaethol Camfanteisio ar Blant sy'n cynnig cyfle gwerthfawr i oruchwylio a chydgysylltu gwaith gyda phlant sy'n agored i achosion posibl o gamfanteisio.



Yng Nghastell-nedd Port Talbot, caiff cyfweliadau dychwelyd adref eu rhannu ag asiantaethau partner mewn ffordd wedi'i thargedu, gan roi gwybodaeth newydd i'r gweithwyr proffesiynol am brofiad y plentyn. Mae gweithiwr Barnardo's yn darparu cyswllt effeithiol rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n galluogi gweithwyr i nodi ffyrdd o leihau achosion o blant coll, anghenion sy'n dod i'r amlwg ac i addasu cynlluniau ar gyfer rheoli risgiau. Mae gan dîm unigolion coll yr heddlu gysylltiadau â swyddogion deallusrwydd yr heddlu. Maent yn sicrhau y caiff gwybodaeth a deallusrwydd eu nodi o'r cyfweliadau dychwelyd adref, ac y caiff unigolion cyswllt a lleoliadau eu diweddaru ar gofnodion ac y caiff cofnodion deallusrwydd eu creu lle y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio gwybodaeth er mwyn helpu i atal unigolion rhag mynd ar goll yn y dyfodol ac i ddod o hyd i'r plentyn os bydd hynny'n digwydd. Yng Nghaerdydd, mae cydgysylltydd unigolion coll dynodedig sy'n rhan o wasanaeth SAFE yn gweithredu fel cyswllt dynodedig i bartneriaid.

Mae enghreifftiau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant ar gamfanteisio troseddol a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'w helpu i gynnal asesiad er mwyn canfod a oes rhywun yn camfanteisio'n droseddol ar blentyn. Mae rhai aelodau o staff gofal iechyd yn defnyddio adnodd sgrinio'r Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blentyn (CSERQ) er mwyn helpu i nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol yn gynnar.

Yn Sir Ddinbych, ceir presenoldeb da gan bartneriaid mewn cyfarfodydd sy'n rhan o Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). Mae agenda sy'n canolbwyntio ar rieni â phlant yn golygu bod ffocws ar blant sy'n wynebu risg. Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan dditectif arolygydd a chyflwynir adroddiadau ysgrifenedig gan bob grŵp perthnasol o staff. Mae cyfarfodydd wythnosol yn helpu'r bartneriaeth i ymateb yn brydlon i risgiau o gam-drin domestig.

Mae'r heddlu a sefydliadau diogelu eraill yn gweithio'n effeithiol mewn llawer o gyfarfodydd rheoli risg amlasiantaethol sy'n ystyried themâu penodol. Mae hyn yn cynnwys Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer achosion o gam-drin domestig

a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ar gyfer troseddwyr rhywiol a throseddwyr treisgar.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF), mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn gweithio fel rhan o'r tîm diogelu a cheir Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc rhwng 11 ac 17 oed. Mae arweinydd cam-drin domestig dynodedig ym maes gofal cymdeithasol wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol â gwasanaethau eraill, gan gynnwys partneriaid yn y trydydd sector. Mae deiliad y swydd yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol, sy'n ymrwymedig i helpu i ddatblygu ymarfer a darparu hyfforddiant i bob rhan o'r grŵp amlasiantaethol.

Mae Tîm Atal Trais amlasiantaethol, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref, hefyd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, sy'n cynnwys nyrs ac eiriolwr i gleifion, sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r tîm yn rhoi cymorth i unrhyw un sydd wedi dioddef trais ac wedi cael anaf o ganlyniad i hynny ac yn atgyfeirio achosion ymlaen at wasanaethau priodol. Hyd yn hyn, mae gwerthusiadau a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref wedi bod yn gadarnhaol.

Mae hyfforddiant amlasiantaethol (wyneb yn wyneb a rhithwir) ar gael ledled Cymru ac ar y cyfan, caiff yr hyfforddiant hwnnw ei werthfawrogi. Gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant wedi'i deilwra'n benodol a drefnwyd i gefnogi meysydd ymarfer penodol. Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), mae pediatregwyr wedi bod yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra'n benodol i asiantaethau partner. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar rolau a chyfrifoldebau allweddol staff wrth gynnal archwiliad meddygol amddiffyn plant, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses a'r llwybrau cywir yn hyn o beth. Yng Ngwent, mae'r heddlu wedi gwella'r hyfforddiant a ddarperir i staff y ddalfa, ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), er mwyn sicrhau y caiff pryderon diogelu eu nodi ac y rhoddir gwybod amdanynt yn briodol drwy gyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i reoli'r Gofrestr Amddiffyn Plant yn effeithiol ac i sicrhau ei bod hi'n hawdd i asiantaethau partner ei gweld. Mae'r Gofrestr Amddiffyn Plant yn rhestru pob plentyn mewn ardal awdurdod lleol sy'n wynebu risg o niwed sylweddol neu sy'n dioddef niwed sylweddol, ac sy'n destun Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ar y pryd.

Mae'n hanfodol sicrhau y gall yr heddlu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol weld y Gofrestr Amddiffyn Plant, yn ystod oriau swyddfa a'r tu allan i'r oriau hynny. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae'r drefn ar gyfer gweld y gofrestr yn gweithio'n dda. Er enghraifft, gwelsom fod staff Adrannau Achosion Brys yn gallu edrych yn gyflym i weld a yw plentyn sydd wedi dod i'r Adran Achosion Brys wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac os yw'n berthnasol, eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth allweddol â phartneriaid amlasiantaethol.

Fodd bynnag, nodwyd enghreifftiau gennym lle nad oedd rhai timau o staff yn gallu gweld gwybodaeth ar y Gofrestr Amddiffyn Plant mewn ffordd gyson, fel y rhai hynny sy'n gweithio mewn Unedau Iechyd Rhywiol Integredig (ISHU), a lle roeddent yn dibynnu ar hunanddatgeliadau gan y plant neu aelodau o'u teuluoedd yn lle hynny. Mae hyn yn cynyddu'r risg y gallai aelodau o staff fethu cyfleoedd i nodi plentyn sy'n wynebu risg, i roi gwybod i unigolion eraill perthnasol am y risg, ac i ofyn am ragor o wybodaeth gan asiantaethau partner os oes angen.

Un o'r themâu cyffredin ledled Cymru yw'r diffyg adborth i bartneriaid am atgyfeiriadau diogelu plant a chanlyniadau'r Ddyletswydd i Adrodd (DTR). Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd yr adroddiad **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant** ac mae'n tynnu sylw at yr angen i wasanaethau plant gyfleu gwybodaeth am ganlyniadau'r Ddyletswydd i Adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau. Os na chaiff gwybodaeth ei rhannu ag atgyfeirwyr, bydd yn cael effaith negyddol ar eu gallu i weithio'n effeithiol gyda theuluoedd, o ran y risgiau i'r plentyn a'r mesurau sydd eu hangen i ddiogelu'r plentyn.

Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae gweithwyr plant coll yn y trydydd sector, fel y rhai hynny a nodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn ymgysylltu'n dda â'r heddlu. Maent yn rhoi cymorth i blant sy'n bodloni'r meini prawf gwasanaeth ar gyfer Cyfweliadau Dychwelyd Adref ac ôl-ofal. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o Gymru, nodwyd anghysondebau gennym o ran cwblhau a chofnodi gwybodaeth o'r Cyfweliadau Dychwelyd Adref i blant. Mae hyn yn golygu nad oes gwybodaeth hanfodol am y risgiau y bydd plant yn dianc a'r gallu i ddod o hyd iddynt os byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol ar gael yn hawdd i ymatebwyr.

Mae cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau cyfranogiad amlasiantaethol mewn trafodaethau strategaeth cychwynnol, lle byddai gweithwyr proffesiynol yn gallu chwarae rôl berthnasol ac y byddai ganddynt gyfraniad dilys i'w wneud. Yn aml, ni chaiff cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol i adolygu penderfyniadau ymholiadau Adran 47 eu trefnu ychwaith neu ni fydd yr asiantaethau perthnasol bob amser yn bresennol ynddynt. Weithiau, ni chaiff gweithwyr proffesiynol wahoddiad neu ni fyddant yn mynychu cyfarfodydd strategaeth a grwpiau craidd. O ganlyniad, gall fod bylchau yn y wybodaeth a gaiff ei rhannu gan y bydd gan bartneriaid wybodaeth a dealltwriaeth gwerthfawr i'w rhannu. Mae presenoldeb gweithwyr proffesiynol allweddol mewn grwpiau craidd yn hanfodol gan mai dyma hefyd lle caiff y cynllun amddiffyn plant manwl ei ddatblygu a'i adolygu.

Nid yw dogfennau diogelu allweddol fel cofnodion cyfarfodydd strategaeth, grwpiau craidd a Chynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth ar gael fel mater o drefn i'r gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n gweithio gyda theulu fel y nodwyd yn yr **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant**. Gall hyn effeithio ar eglurder a dealltwriaeth o'r risgiau a'r camau gweithredu a roddwyd ar waith a'r broses o'u cyfleu. Gallai hyn olygu nad yw plant bob amser yn cael eu diogelu'n ddigonol.

Dylai pob asiantaeth gydweithio i sicrhau dealltwriaeth glir o'r trothwyon a mynediad priodol at wasanaethau, er mwyn gwneud yn siŵr bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir mewn modd amserol. Mae canllawiau ar atgyfeiriadau amlasiantaethol a'r Ddyletswydd i Adrodd yn bwysig, a rhaid iddynt fod yn rhan annatod o ymarfer. Dylai partneriaid allweddol, fel ysgolion a staff gofal iechyd, ddeall a gweithredu drwy roi gwybod yn uniongyrchol am bryderon mewn perthynas ag achosion o gam-drin neu niwed i staff gofal cymdeithasol neu'r heddlu, a dylent ddefnyddio cymorth gwasanaethau help cynnar yn briodol lle bo hynny o bosibl yn briodol.

Mae'r lefelau galw ledled Cymru yn golygu y gall fod oedi wrth ddarparu llawer o wasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector, a bod rhestrau aros ar waith. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl y caiff cyfleoedd i ymdrin â risgiau diogelu a'u lliniaru cyn gynted â phosibl eu colli. Ceir achosion o oedi mewn rhai ardaloedd wrth gynnal asesiad CAMHS, sy'n golygu y gall fod oedi wrth roi ymyriadau amserol ar waith i ddiwallu anghenion iechyd meddwl plant. Caiff hyn ei waethygu gan y cynnydd mewn galw yn dilyn y pandemig ac mae'n golygu nad yw plant bob amser yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar yr adeg briodol.

Er ein bod yn cydnabod bod gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud i ymgysylltu â phlant, yn aml nid yw'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol yng nghofnodion y plentyn. Yn rhy aml, nid oedd yr asesiadau a welsom o fewn gwasanaethau plant yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i blant, na'r canlyniadau roedd plant a theuluoedd am eu cyflawni. Dylid rhoi blaenoriaeth i lais plant a theuluoedd, ond yn aml ni chaiff y llais hwnnw ei gynrychioli'n effeithiol.

Er bod gweithwyr proffesiynol yn hyrwyddo lleisiau, dymuniadau a theimladau plant yn effeithiol mewn cynadleddau amddiffyn plant, ni cheir cymaint o gyfleoedd i blant gyfrannu'n uniongyrchol at y gynhadledd. Mae cynnig eirioli gweithredol ar gael ledled Cymru, ond rhaid atgyfnerthu'r cynnig hwn er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i gynrychioli safbwyntiau plant, gan weithio gyda'r darparwr a gomisiynwyd i gyflawni hyn. Pan fydd llais yn amlwg, mae hyn yn arwain at wella'r help a'r cymorth a roddir i deuluoedd.

Mae asesiadau a arweinir gan wasanaethau plant yn aml yn amhenodol ac yn cynnwys dadansoddiad cyfyngedig. Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn nodi risgiau, bydd dadansoddiadau mwy trylwyr gan gynnwys dadansoddiad o'r effaith ar y plentyn yn llywio'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn well. Mae angen mwy o eglurder wrth ddatblygu cynlluniau diogelwch a'u rhoi ar waith er mwyn gwella'r ffocws ar yr hyn y mae angen i rieni ei newid gyda'r cymorth cywir, yn hytrach na rhestru gwasanaethau a rhoi gormod o bwyslais ar gydymffurfiaeth rhieni. Mae angen gwella'r broses o gofnodi'r cryfderau ac yn arbennig y ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant. Mae hyn yn bwysig gan mai sail cryfderau o amgylch teuluoedd sy'n darparu'r amddiffyniad mwyaf effeithiol yn y pen draw.

Er mwyn helpu i ymgysylltu â rhieni, mae angen esbonio'r pryderon am eu plant mewn ffordd fwy penodol gan ddefnyddio iaith syml. Ceir datganiadau eang nad ydynt yn cynnwys digon o fanylion penodol sy'n ei gwneud hi'n anodd dangos cynnydd yn erbyn yr anghenion a'r risgiau a nodwyd. Dylai cynlluniau gynnwys camau gweithredu a chanlyniadau clir a nodi'r risgiau y cytunwyd arnynt gan y rhieni/gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol. Mae'r broses o weithredu cynlluniau diogelwch a'u hadolygu ar y cyd hefyd yn anghyson. Yn rhy aml, mae'r ffocws ar risg a diogelwch yn lleihau dros amser fel y nodwyd yn yr adroddiad **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant**. Dylai'r grwpiau craidd roi mwy o ffocws ar gynnydd yn erbyn y cynllun amddiffyn plant er mwyn osgoi achosion o oedi.



Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd teuluol cymhleth ag achosion hirsefydledig o esgeulustod. Mae angen i asiantaethau gydweithio mewn ffordd gyson i sicrhau bod camau mesuradwy ar waith i wella'r canlyniadau i blant sy'n byw o dan amgylchiadau o'r fath.

Er bod y pwyslais ar sicrhau ansawdd ac archwilio ymarfer yn amlwg yn y rhan fwyaf o wasanaethau plant, mae'r dulliau archwilio amlasiantaethol a ddefnyddir yn amrywio. Rhaid cwblhau archwiliadau amlasiantaethol fel mater o drefn. Er enghraifft, er mwyn dysgu o'r canfyddiadau a rhannu gwelliannau, fel yr arferion da a nodwyd gennym mewn rhai asiantaethau. Gallai asiantaethau wneud mwy o waith monitro ar y cyd er mwyn deall effaith eu hymyriadau, gan gynnwys ymarfer ymyriadau cynnar.

# Byrddau iechyd

## Cryfderau

Yn ardaloedd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, ceir eglurder ynghylch y strwythur llywodraethu gweithredol a strategol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio eu harbenigedd i herio a chefnogi ymarferwyr a hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae gan dimau diogelu ar draws byrddau iechyd ran arbennig o bwysig i'w chwarae wrth gefnogi staff gofal iechyd. Mae hyn i'w weld ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) lle mae'r tîm diogelu wedi datblygu ymarfer arloesol ac wedi'i roi ar waith yn adrannau'r ysbyty cyffredinol dosbarth. Mae hyn wedi cynnwys penodi cenhadon diogelu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol mewn ysbytai.

Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gwblhau Matrics Aeddfedrwydd Diogelu blynyddol (adnodd hunanasesu) er mwyn hunanwerthuso perfformiad, rhoi sicrwydd, rhannu ymarfer ac ysgogi gwelliannau er mwyn sicrhau dull diogelu cyson. Mae'n galonogol nodi eu bod yn cael eu cwblhau a bod y sgoriau yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Diogelu Cenedlaethol yng Nghymru, er mwyn creu darlun cenedlaethol drwy'r rhwydwaith diogelu i'r Prif Swyddog Nyrsio. Mae proses adolygiadau cymheiriaid blynyddol ar waith i nodi a rhannu enghreifftiau o ymarfer da, ac i gydweithio er mwyn gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw broses driongli ffurfiol ar waith i ganfod y dystiolaeth sy'n sail i hunanasesiad y bwrdd iechyd, a nodwyd gennym mewn rhai ardaloedd nad oedd y wybodaeth a ddogfennwyd bob amser yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae sicrhau bod gan bartneriaid yr hyder i herio ei gilydd mewn modd adeiladol yn rhan bwysig o ymarfer diogelu. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae fforwm trafod achosion amlasiantaethol ar waith, sy'n cynnig man diogel i bartneriaid drafod a herio'n broffesiynol lle ceir gwahaniaethau barn. Mae protocol ar gyfer Pryderon o ran Ymarfer Diogelu Rhyngasiantaeth (CRISP) hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu ymarferwyr i ddod o hyd i ateb lle ceir anghytundeb proffesiynol mewn perthynas ag ymarfer diogelu.

Gwelsom enghreifftiau da o lais y plentyn yn cael ei gofnodi ar draws byrddau iechyd, ac o safbwyntiau plant yn cael eu hystyried pan fyddant yn dod i gysylltiad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd ymarfer cwmpasu a gynhaliwyd gyda phlant yn Betsi Cadwaladr yn ddiweddar yn ystyried taith y plentyn drwy'r Adran Achosion Brys a sut y gellid ei gwella. Dangosodd adborth o'r ymarfer fod y staff yn fwy hyderus wrth asesu plant, a bod y broses yn rhoi llais cryfach i blant wrth lywio ymarfer yn y dyfodol yn yr Adran Achosion Brys. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Fwrdd Ieuenctid sefydledig ar waith, ac ymgynghorir â'r bwrdd hwn ynghylch mentrau perthnasol, wrth ddatblygu polisïau ac wrth gynnal cyfweliadau ag aelodau perthnasol o staff mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc.

Ar y cyfan, mae gan fyrddau iechyd ymagwedd gadarnhaol at ddysgu a datblygu mewn perthynas â diogelu. Er enghraifft, yn ardaloedd Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg, caiff gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, fel adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau o laddiadau domestig, eu rhannu drwy ddigwyddiadau hyfforddi, sesiynau briffio 7 munud a bwletinau dysgu. Mae rhaglen o archwiliadau hefyd yn adlewyrchu meysydd pryder ac yn canfod a gafodd gwersi eu dysgu ac a gaiff gwelliannau eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dangos ei ymrwymiad i welliannau parhaus drwy'r prosesau craffu a dysgu sydd ar waith ganddo. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, pryderon, adroddiadau, a rhannu'r gwersi a nodwyd er mwyn helpu i wella.

Mae sesiynau goruchwylio diogelu yn cynnig cyfle i roi cymorth, i herio ac i ddysgu mewn perthynas ag achosion diogelu, ac yn gyffredinol mae sesiynau o'r fath ar gael i bob aelod o staff perthnasol ledled Cymru. Mae'r arferion gorau i'w gweld yn y byrddau iechyd sy'n defnyddio cronfeydd data goruchwylio diogelu i gofnodi cydymffurfiaeth aelodau o staff â sesiynau goruchwylio gorfodol.

Ceir enghreifftiau cadarnhaol o brosesau cyfnewid gwybodaeth o dan arweiniad staff gofal iechyd, fel ymwelwyr iechyd yn rhannu gwybodaeth bwysig ag ysgolion cynradd wrth i blant ddechrau addysg feithrin.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mae meddygon teulu wedi rhoi trefniadau da ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth drwy ymgysylltu â chwnselwyr ysgol a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc (YOS). Mae'r meddygon teulu yn cyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol am gleifion ei rhannu er mwyn i'r partneriaid amlasiantaethol wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yn ystod y cyfarfodydd.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Ceir cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd deall amgylchiadau unigol plentyn, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer cynnal y ddealltwriaeth hon a dogfennu llais y plentyn mewn rhai meysydd. Yn benodol, gall fod yn anghyson o fewn prosesau amddiffyn plant.

Mae rhai enghreifftiau da iawn i'w gweld ledled Cymru o sesiynau goruchwylio diogelu, ond ceir anghysondeb. Mae'n bwysig bod timau diogelu yn anelu at safonau uchel a'u bod yn sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal yn rheolaidd, yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth.

Mae nifer y systemau TG gwahanol a ddefnyddir o fewn byrddau iechyd ledled Cymru yn atal gwybodaeth sylfaenol rhag cael ei chasglu a'i rhannu mewn modd amserol. Ni chaiff dogfennaeth ddiogelu allweddol bob amser ei chofnodi'n ddigonol, a dim ond gwybodaeth gyfyngedig a geir mewn rhai cofnodion. Yn ogystal, mae mynediad at wahanol gofnodion electronig yn broblem a all effeithio ar anghenion plentyn. Mae hyn yn golygu nad oes manylion pwysig am Gynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth a chyfarfodydd amlasiantaethol bob amser ar gael neu nad oes modd cael gafael arnynt mewn modd amserol i lywio cynnydd mewn perthynas â diogelwch a llesiant plentyn.

Mewn rhai ardaloedd, ceir lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant gorfodol, a threfniadau gwael ar gyfer cofnodi'r hyfforddiant hwnnw. Er bod tystiolaeth o ymrwymiad i ddiwylliant dysgu, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3 yn amrywiol, ac mewn rhai byrddau iechyd, roedd yn sylweddol is na'r targed cenedlaethol o 85%. Mae ffactorau gwaethygol yn cynnwys effaith pandemig COVID-19 ar y gallu i drefnu neu gwblhau hyfforddiant ac adnoddau cyfyngedig i ddatblygu, cydgysylltu a darparu hyfforddiant. Mae angen hyfforddiant amlasiantaethol rheolaidd er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson mewn perthynas ag ymarfer diogelu.



# Awdurdodau lleol (addysg)

## Cryfderau

Mae awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn cyd-destun cenedlaethol o gynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ac anghenion cynyddol gymhleth ymhlith plant a theuluoedd.

Roedd pob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod pwysigrwydd diogelu plant a natur greiddiol y gwaith hwnnw. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn eu hysgolion a'u hunedau cyfeirio disgyblion (UCD). Mae uwch-arweinwyr timau addysg yn rhoi cymorth cadarn i arweinwyr mewn ysgolion ac UCDau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad emosiynol a llesiant disgyblion.

Mae arferion effeithiol ar draws llawer o'r awdurdodau yn cynnwys cyfleoedd wedi'u hwyluso i arweinwyr diogelu dynodedig (DSL) gyfarfod yn rheolaidd fel clystyrau i gefnogi ei gilydd ac i rannu arferion effeithiol a phryderon. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae swyddogion o amrywiaeth o dimau yn rhannu gwybodaeth am ysgolion ac UCDau unigol yn ystod cyfarfodydd 'Risg i Bob Ysgol'; cyfarfodydd y Tîm o Amgylch yr Ysgol (TAS); a chyfarfodydd Cynllunio Amlasiantaethol (MAP) rheolaidd. Mae'r trefniadau hyn yn amrywio, ond nid yw pob awdurdod lleol yn darparu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn i atgyfnerthu gwaith Arweinwyr Diogelu Dynodedig.

Mae ymarfer mewn perthynas ag archwiliadau diogelu blynyddol o ysgolion ac UCDau yn anghyson ac, o ganlyniad, mae archwiliadau gan ysgolion yn amrywio o ran eu hansawdd a'u defnyddioldeb. Lle bo archwiliadau o'r fath yn gweithio'n effeithiol, mae awdurdodau yn mynnu eu bod yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd, ac mae'r archwiliadau yn ystyried pryderon diogelu ehangach fel gwaharddiadau a chynlluniau cymorth bugeiliol.

Mae'r defnydd helaeth o lwyfannau digidol ar gyfer pob ysgol ac UCD a meysydd gwasanaeth ar draws adrannau addysg yn gwella cysondeb wrth gofnodi pryderon a rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn hefyd yn gwella'r cyfathrebu a'r broses o rannu gwybodaeth rhwng ysgolion / UCDau a darparwyr gwasanaethau, ac mae'n dechrau cael ei ddefnyddio fel ffordd o fonitro tueddiadau a phatrymau y gellir eu defnyddio i nodi ymyriadau wedi'u targedu. Lle bo hyn yn gweithio'n dda, fe'i defnyddir hefyd i fonitro a dadansoddi gwybodaeth berthnasol arall fel data ar fwlio. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes system gyson ar waith ledled Cymru ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am blant agored i niwed yn arwain at anawsterau a heriau i ysgolion ac awdurdodau lleol wrth rannu gwybodaeth a'i dadansoddi. Mae prosiectau ar waith yn barod sy'n anelu at ymdrin â'r mater hwn. Er enghraifft, mae prosiect 'Single View' yn brosiect a arweinir gan awdurdod lleol a fydd yn casglu data o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS), ynghyd mewn un system i greu un cofnod ar gyfer plentyn. Byddai integreiddio gwybodaeth o amrywiol ffynonellau i un system unedig yn gwella cydgysylltiad a dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid perthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn rhoi cymorth ac arweiniad rheolaidd, cynhwysfawr a pherthnasol i'w hysgolion a'u UCDau mewn perthynas â materion amddiffyn plant. Mae hyn yn cynnwys polisi amddiffyn plant a pholisi diogelu enghreifftiol a chymorth i reoli materion fel ymddygiad heriol. Mae bron pob Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol yn darparu hyfforddiant priodol i staff a llywodraethwyr ei ysgolion a'i UCDau ar amddiffyn plant yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o sesiynau diogelu cyd-destunol. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant yn rhy gyffredinol ac yn aml, caiff ei gyflwyno ar-lein, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gynnal trafodaethau proffesiynol a chyfnewid gwybodaeth.

Yn yr holl awdurdodau a gafodd eu cynnwys yn yr arolygiadau ar y cyd, mae cyfleusterau MASH yn gweithio'n effeithiol ac yn hybu gwaith partneriaeth agosach. Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn annog lefel uchel o drefniadau gweithio rhyngasiantaeth ar draws eu hysgolion a'u UCDau. Maent yn meithrin cydberthnasau gweithio agos ar draws gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc hynod gymhleth sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant a'u teuluoedd.



## Yr hyn y mae angen ei wella

Yn genedlaethol, nid oes bob amser gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon clir o'r trothwyon ar gyfer cyflwyno atgyfeiriadau amlasiantaethol er mwyn sicrhau ymateb effeithlon a chymesur i reoli'r galw. Er bod canllawiau atgyfeirio ar gael eisoes, nid yw llawer o awdurdodau lleol wedi cynnwys y canllawiau hyn yn ddigon da fel rhan o'u hymarfer. Mae hyn yn golygu bod partneriaid allweddol fel staff mewn ysgolion ac UCDau yn rhoi gwybod yn gyson i MASH am lawer o bryderon heb fanteisio ar gymorth gwasanaethau help cynnar lle y byddai hynny o bosibl yn briodol.

Mewn tua hanner yr awdurdodau lleol, ceir pryderon nad yw ysgolion ac UCDau bob amser yn rhannu gwybodaeth bwysig pan fydd disgybl agored i niwed yn trosglwyddo. Gall hyn fod yn wir pan fydd disgybl yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd o fewn ardal awdurdod lleol, neu pan fydd yn mynychu UCD, ond hefyd pan fydd disgybl yn symud yng nghanol cyfnod o un ysgol i ysgol arall, a hynny o fewn ardal yr awdurdod lleol ac o wahanol awdurdod. Unwaith eto, byddai cyflwyno system gyson ledled Cymru ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am blant agored i niwed yn helpu i liniaru'r pryderon hyn.

Lle ceir yr ymarfer mwyaf effeithiol, mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae staff mewn ysgolion ac UCDau yn nodi bod systemau priodol ar waith iddynt allu gweld cofnodion gwasanaethau cymdeithasol a gwybodaeth am blant agored i niwed.

Yn genedlaethol, mae prosesau digonol i ysgolion, timau addysg a'r heddlu (drwy Ymgyrch Encompass) gyfnewid gwybodaeth. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth ychwanegol, fwy amserol ar draws pob awdurdod lleol yn galluogi ysgolion ac UCDau i fod yn fwy ymwybodol o sefyllfaoedd er mwyn iddynt roi cymorth priodol i blant yn dilyn digwyddiad. O ystyried y gall fod oedi o ran ymatebion amlasiantaethol ac o ran rhannu canlyniadau ag ysgolion, gall diffyg gwybodaeth gan yr heddlu fod yn rhwystr ychwanegol wrth gefnogi plant ar y gofrestr amddiffyn plant a chymryd camau cyflym a phriodol. Mae ysgolion ac UCDau mewn llawer o awdurdodau lleol yn nodi nad oes unrhyw broses y cytunwyd arni ar waith i'r heddlu anfon gwybodaeth lawn iddynt am bryderon diogelu am oedolyn neu blentyn, sef hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd. Mae'n arfer da rhannu gwybodaeth gymesur a chyd-destunol er mwyn gallu rhoi cymorth priodol i blant. Soniodd staff hefyd am fanteision cael diweddariadau amserol gan yr heddlu ar ôl iddynt gyflwyno hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw system ar gyfer gwneud hynny ledled Cymru.

# Ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

## Cryfderau

Mae ysgolion ac UCDau ledled Cymru yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu disgyblion ac o ganlyniad, mae ysgolion ac UCDau yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel i ddisgyblion ddysgu. Mae disgyblion agored i niwed, gan gynnwys y rhai hynny y mae eu henw ar y gofrestr amddiffyn plant, yn teimlo'n ddiogel ac yn hoffi mynd i'r ysgol neu'r UCD.

Yn genedlaethol, mae bron pob un o'r staff sy'n gweithio mewn ysgolion neu UCDau yn deall ei bod yn hanfodol i bob rhanddeiliad nodi achosion, eu hasesu, cyfathrebu ac ymyrryd yn gynnar. Maent yn cydnabod y bygythiad parhaus sy'n gysylltiedig ag achosion o gamfanteisio ar bobl ifanc a bod gwaith effeithiol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn gofyn am weithdrefnau cadarn, trefniadau cydweithredu da rhwng asiantaethau a gweithlu sy'n gymwys ac yn hyderus wrth ymateb i sefyllfaoedd. Mae staff ysgolion ac UCDau ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw dysgwyr yn ddiogel.

Yn tua hanner yr awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, soniodd ysgolion am fanteision cydleoli gweithwyr proffesiynol MASH a darparu un lleoliad iddynt weithio wyneb yn wyneb. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â manteision canfyddedig cynnal cyfarfodydd amlasiantaethol wyneb yn wyneb, yn hytrach na defnyddio model o bell neu fodel hybrid.

Ar y cyfan, mae ysgolion ac UCDau yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn cynllunio'n ofalus er mwyn diwallu eu hanghenion. Lle byddant yn bodoli, mae swyddogion cyswllt â theuluoedd mewn ysgolion ac UCDau yn cynnig cymorth gwerthfawr i rieni a gofalwyr.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau yn gwneud cyfraniad sylweddol ac effeithiol at yr ymateb amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu helpu a'u hamddiffyn yn y ffordd gywir ar yr adeg gywir. Mae bron pob un o'r arweinwyr diogelu dynodedig yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gronoleg disgyblion y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant. Maent yn nodi plant y mae angen eu helpu neu eu hamddiffyn ac yn cyflwyno atgyfeiriadau amlasiantaethol mewn modd amserol.

Ym mhob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, mae ysgolion ac UCDau yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill i hyrwyddo ethos sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r staff yn sicrhau bod eu gwaith yn canolbwyntio ar gyd-destun y plant a'u teuluoedd ac yn cydnabod anghenion plant ar eu taith tuag at fod yn oedolion, gydag ymrwymiad i sicrhau darpariaeth o ansawdd er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid yw ymwybyddiaeth ysgolion ac UCDau o wasanaethau help cynnar allanol a/neu'r defnydd y maent yn ei wneud o'r gwasanaethau hyn yn ddigon effeithiol. Yn y cyd-destun cyfredol lle ceir galw cynyddol, mae ysgolion ac UCDau yn wynebu heriau sylweddol pan fydd angen iddynt gael gafael ar ofal a chymorth mwy ffurfiol. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi systemau help ac ymyriadau cynnar ond mae gormod o amrywiaeth o ran lefelau cymorth a lefelau ymateb ar draws awdurdodau lleol ac o fewn awdurdodau lleol. Mae tua hanner yr ysgolion a nifer bach o UCDau yn sôn am eu rhwystredigaeth o ran y rhestrau aros hir (neu rwystrau mynediad eraill) ar gyfer gwasanaethau help cynnar a gwasanaethau 'cyn-gyfeirio', sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn. Nododd pob ysgol ac UCD bryder ynghylch y rhestrau aros hir i gael gafael ar gymorth gan CAMHS. Mae darparwyr wedi gwella eu capasiti mewnol er mwyn helpu i roi cymorth i ddisgyblion drwy hyfforddiant ychwanegol a thrwy gyflwyno gwahanol fentrau. Fodd bynnag, nid oes digon o ddarpariaeth arbenigol o hyd.

Yn yr awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, mae plant yn cael cymorth priodol mewn ysgolion ac UCDau, a defnyddir amrywiaeth gynhwysfawr o raglenni i hybu iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau iechyd emosiynol fel ymyriadau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), sesiynau

ymwybyddiaeth ofalgar a mabwysiadu strategaethau sy'n ystyriol o drawma i'r ysgol gyfan er mwyn ymdrin â disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gyda chymorth timau addysg yr awdurdod lleol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau yn rhoi addysg gwricwlaidd effeithiol sy'n berthnasol i bob agwedd ar amddiffyn plant. Ar y cyfan, mae uwch-arweinwyr mewn ysgolion ac UCDau wedi rhoi cynlluniau ystyrlon ar waith ar gyfer cyflwyno maes iechyd a lles y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae ysgolion, UCDau ac ysgolion arbennig a gynhelir yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol i ddisgyblion, gan gynnwys gwersi ar gydberthnasau iach ac aros yn ddiogel ar-lein. Maent hefyd yn cynnal ymgyrchoedd gwrth-fwlio. Fodd bynnag, yn genedlaethol, mae gormod o amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae ysgolion ac UCDau wedi pennu oedolion penodedig yr ymddiriedir ynddynt, y gall disgyblion droi atynt os byddant yn pryderu am rywbeth. Dywed disgyblion fod y bobl hyn yn eu cefnogi ac yn gwrando arnynt os byddant yn teimlo'n ofidus neu'n bryderus.

Ledled Cymru, mae ysgolion ac UCDau ar y cyfan yn monitro lefelau presenoldeb y disgyblion hynny sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn dda iawn ac mae strategaethau cadarn ar waith i wella'r lefelau hynny. Gyda chymorth y Gwasanaethau Lles Addysg, mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i bryderon ynghylch presenoldeb disgyblion sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

# Yr Heddlu

## Cryfderau

Mae uwch-arweinwyr ein pedwar heddlu yng Nghymru yn dangos ymrwymiad eang a pherthnasol i lywodraethu trefniadau diogelu. Mae'r arweinwyr yn darparu arweiniad strategol clir ac yn cyfrannu'n briodol at waith cynllunio partneriaethau amlasiantaethol. Mae'r gweithlu yn ymrwymedig ac yn wybodus iawn ac yn gweithio'n effeithiol fel rhan o drefniadau partneriaeth gweithredol. Mae swyddogion yr heddlu yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol yn rheolaidd ac yn gwneud cyfraniad gweithredol at gynlluniau diogelu.

Mae systemau cadarn ar waith gan yr heddluoedd i arweinwyr reoli'r galw ac ymatebion i risg, ond nid oes gan rai heddluoedd ddigon o staff arbenigol nac adnoddau i ymdrin â'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag ymateb mewn modd effeithiol ac amserol i'r galw mewn perthynas ag achosion amddiffyn plant.

Mae'r heddlu yn cydnabod yr angen i roi systemau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth i amddiffyn plant ac ar y cyfan, gwneir defnydd da o'r wybodaeth sydd ar ei systemau i ychwanegu gwerth at yr atgyfeiriadau a wneir ar gyfer plant. Mae staff ystafelloedd rheoli'r heddlu yn ymchwilio i systemau'r heddlu er mwyn rhoi gwybodaeth werthfawr i ymatebwyr rheng flaen i'w helpu i wneud penderfyniadau. O ran cydnabod achosion yn gynnar ac asesu risgiau, mae gan bob un o'r heddluoedd systemau cadarn ar waith yn eu hystafelloedd rheoli. Maent yn hyfforddi'r aelodau hynny o staff i nodi risgiau i blant ac i benderfynu ar yr ymatebion cywir. Mae goruchwylwyr ystafelloedd rheoli'r heddlu yn sicrhau ansawdd penderfyniadau a wneir fel mater o drefn.

Roedd y rhan fwyaf o'r heddluoedd yn defnyddio marcwyr a baneri rhybuddio yn gyson ar eu systemau gwybodaeth er mwyn hysbysu staff am risgiau ac unigolion agored i niwed, ond nid yw'r heddlu yn defnyddio baner ar gyfer plant sy'n byw mewn gofal maeth neu ofal preswyl. Byddai marciwr yn helpu staff i fod yn fwy ymwybodol o'r agwedd hon.

Ar y cyfan, mae swyddogion yn gwybod pryd y dylid cofnodi pryderon am blant sy'n agored i niwed ar Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd a chaiff yr hysbysiadau hyn bob amser eu rhannu â'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, ni chaiff manteision eu rhannu ag asiantaethau eraill eu cydnabod yn llawn. Fel yr amlinellwyd yn yr adran ar awdurdodau lleol (addysg) uchod, mae Ymgyrch Encompass ar waith gan bob heddlu, ond gellid ei gwella drwy gynnig mwy o fanylion i ysgolion.

Gan weithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, mae arweinwyr heddluoedd yn comisiynu gwasanaethau i gefnogi'r ddarpariaeth ddiogelu amlasiantaethol ac i gynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol. Yng Nghaerdydd, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ariannu amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi plant a theuluoedd y mae trais a niwed wedi effeithio arnynt, gan gynnwys darpariaeth mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Mae heddluoedd yn deall pwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol i ymchwilwyr cam-drin plant. Mae'r canlyniadau i blant yn well pan gânt gymorth gan swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant arbennig. Mae gan yr heddluoedd a'u partneriaid diogelu amrywiaeth o adnoddau a thechnegau amharu fel dulliau datrys problemau er mwyn atal troseddwyr rhag achosi niwed i blant.

## Meysydd i'w gwella

Mae heddluoedd yn hapsamplu ac yn archwilio ymchwiliadau a digwyddiadau diogelu fel mater o drefn, ond byddai ffocws amlasiantaethol a dull gweithredu cyson o fudd o ran y trefniadau sicrhau ansawdd cyffredinol.

Mae gan heddluoedd rywfaint o ddata rheoli perfformiad, ac maent yn gwneud ymdrechion cynyddol i ddatblygu'r agwedd ansoddol ar y wybodaeth hon. Mae'r heddlu yn cofnodi troseddau yn erbyn plant yn gyson ac yn eu dyrannu i dimau ac unigolion priodol ymchwilio iddynt. Nid yw'r heddluoedd a'u partneriaid yn casglu digon o ddata i greu proffiliau problem amserol a diwygiedig o ran y meysydd sy'n peri risg i blant. Ni chaiff data perfformiad na phroffiliau deallusrwydd eu defnyddio'n effeithiol i lywio strategaethau ac ymyriadau diogelu amlasiantaethol.

Nid yw arweinwyr yr heddlu wedi llwyddo eto i feithrin diwylliant cyson o sicrhau bod pob aelod o staff yn deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth am ethnigrwydd plant a gwybodaeth ddemograffig. Ni chaiff gwybodaeth o'r fath ei chofnodi mewn modd cyson ac yn aml, nid yw wedi'i chynnwys o gwbl yng nghofnodion yr heddlu. Mae iaith sy'n beio'r dioddefwr i'w gweld o hyd yn rhai o gofnodion yr heddlu.

Gallai polisïau cliriach a gwell trefniadau cydgysylltu sicrhau ymateb mwy effeithiol a chyson mewn perthynas â phlant y rhoddir gwybod eu bod ar goll. Nid yw heddluoedd yn dilyn canllawiau Ymarfer Proffesiynol Cymeradwy'r Coleg Plismona ar asesu risgiau ac ymatebion i blant y rhoddir gwybod eu bod ar goll mewn ffordd gyson. Ni chaiff Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd bob amser eu cofnodi pan fydd plant wedi mynd ar goll o'u cartref neu wedi cyflawni trosedd.

Nid yw swyddogion yn gweithredu mewn ffordd gyson o ran pryd y byddant yn nodi gwybodaeth mewn cofnodion am y risg gyd-destunol i blant nac o ran pa wybodaeth a gaiff ei chofnodi, ac ni chaiff y wybodaeth hon bob amser ei rhannu gan ddefnyddio llwybrau atgyfeirio cydnabyddedig yr heddluoedd. Yn aml, ni chaiff cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfodydd strategaeth eu darparu mewn modd amserol neu ni fyddant i'w gweld ar systemau'r heddlu.

Ni chaiff Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd bob amser eu gwirio cyn iddynt gael eu hanfon ymlaen, felly nid oes dull sicrhau ansawdd cyson ar waith i sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi, er enghraifft, llais y plentyn, gwybodaeth ddemograffig a'r risgiau i blant eraill. Weithiau gall fod oedi wrth atgyfeirio achosion at asiantaethau eraill.

Nid yw swyddogion a goruchwylwyr yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig (DVPN) a'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS) i amddiffyn plant a theuluoedd rhag unigolion sy'n cyflawni trais domestig. Nid oes gan heddluoedd systemau ar waith i sicrhau ymateb cyflym i geisiadau DVDS.

Mae rhai heddluoedd yn cynnal gwaith goruchwylio effeithiol i sicrhau bod y broses rheoli risgiau ar y lefel gywir, ond nid yw'r goruchwylwyr bob amser yn uwchgyfeirio'r risg nac yn herio achosion o oedi wrth ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar blant.

Nid yw swyddogion bob amser yn siarad â'r plant nac yn cofnodi llais y plentyn yn eu hadroddiadau. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r dull gweithredu yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae anghysondeb o ran hyfforddiant ar lais y plentyn yn ffactor yn y maes i'w wella hwn.

Ceir anghysondebau ar draws heddluoedd a phartneriaethau o ran blaenoriaethu'r hyfforddiant a ddarperir ganddynt ac o ran cynnwys yr hyfforddiant. Nid yw rheolwyr bob amser yn cydnabod manteision hyfforddiant amlasiantaethol ac yn ei gynnig i bob aelod perthnasol o'r staff.

# Gwasanaethau plant

## Cryfderau

Mae staff gwasanaethau plant ledled Cymru yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ddiogelwch a llesiant plant. Maent yn dangos gwydnwch wrth reoli galw a chymhlethdod cynyddol. Drwy'r gyfres o arolygiadau, bu'n rhaid i staff ymateb i heriau a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 a sefyllfa heriol o ran recriwtio staff, gyda llawer o awdurdodau lleol yn gorfod dibynnu ar staff dros dro i sicrhau gwydnwch y gweithlu.

Soniodd ymarferwyr yn rheolaidd wrth yr arolygwyr am bwysigrwydd arweinyddiaeth gefnogol, sy'n bwysig iawn yn eu barn nhw er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol. Mae'r enghreifftiau gorau i'w gweld lle ceir diwylliant o wella ac o helpu ei gilydd, a hynny wedi'i ysgogi gan arweinwyr ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae nodweddion diwylliant iach o fewn gwasanaethau plant yn cynnwys uwch-reolwyr sy'n cyfathrebu'n effeithiol â'u staff a diwylliant cefnogol, agored nad yw'n rhoi bai ar neb, wedi'i osod gan yr arweinwyr. Mae arweinwyr gwasanaethau plant cadarn yn cadw golwg clir ar arferion rheng flaen sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd arloesol a datblygol.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr ym mhob rhan o'r grŵp amlasiantaethol yn nodi plant y mae angen eu helpu a'u hamddiffyn yn gywir. Ar y cyfan, mae gwasanaethau plant yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddiwallu'r anghenion hyn, yn enwedig lle bydd risg acíwt wedi cael ei nodi. Yn ystod camau cychwynnol ymyriad, gall fod cyfathrebu effeithiol ar draws asiantaethau, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod fforymau diogelu allweddol fel trafodaethau strategaeth cychwynnol.
Mae trefniadau da ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn golygu y gellir paratoi'n dda a sicrhau ffocws priodol wrth gynllunio. Mae sianeli cyfathrebu amlasiantaethol a dealltwriaeth a rennir yn gweithio'n dda lle ceir proses glir wedi'i deall yn dda i weithwyr proffesiynol ei dilyn i roi gwybod am bryderon am blant.



Yng Nghaerdydd, ceir dull clir ar gyfer atal risg rhag gwaethygu mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio ac ar gyfer cynnwys y gymuned yn ehangach fel rhan o gynlluniau i sicrhau diogelwch plant. Mae dull cydweithredol o'r fath yn bosibl gan fod y gwasanaethau plant yn dangos arweiniad strategol clir gyda phwyslais ar gydweithio ar draws gwasanaethau perthnasol.

Mae enghreifftiau arfer gorau i'w gweld pan fydd awdurdodau lleol yn dangos dull cadarnhaol o reoli risg, yn cofnodi safbwyntiau plant a theuluoedd yn glir, gan sicrhau y gwrandewir yn ofalus ar y safbwyntiau hynny ac y cânt eu deall yn glir. Ar lefel unigol, mae gweithwyr yn holi am ddymuniadau a theimladau'r plant drwy ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae canlyniad y gwaith hwn yn llywio ansawdd y gwaith dadansoddi risg a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â theulu a chymuned y plentyn a all helpu i'w gadw'n ddiogel. Mae enghreifftiau o ymarferwyr yn llwyddo i ddatrys sefyllfaoedd teuluol cymhleth, gydag asesiadau yn rhoi eglurder ynghylch sefyllfaoedd teuluol a rhwydweithiau teuluol a chymunedol cefnogol. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r ymarfer hwn yn amrywio gan fod y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn canolbwyntio ar restr o wasanaethau cymorth heb gynnig eglurder penodol ynghylch diogelwch a chanlyniadau.

Mae'r Cynllun Amddiffyn yn fwy buddiol pan fydd yn cynnwys amcanion a nodau cadarn mewn perthynas â'r canlyniadau i blant, gyda chofnod clir o gynnydd. Dylai'r Cynllun Amddiffyn ddangos yn glir sut y bydd y gwaith a wneir gan weithwyr proffesiynol a rhieni yn arwain at welliant penodol o ran y canlyniadau i blant.

Yn ystod y gyfres o arolygiadau, roedd gwasanaethau cymorth arloesol llawn dychymyg yn cael eu datblygu i gefnogi teuluoedd a diwallu anghenion cyn gynted â phosibl cyn i amgylchiadau waethygu o bosibl. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol amrywiaeth o wasanaethau help cynnar sy'n cynnig amrywiaeth o ymyriadau a rhaglenni rhianta. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn cynnig gwerth therapiwtig, gan ddefnyddio gwahanol ddisgyblaethau fel seicolegwyr mewn ffordd gadarnhaol. Mae rhestrau aros ar gyfer gwahanol dimau o fewn rhai gwasanaethau plant, sy'n dangos y cynnydd mewn galw. Mae'r enghreifftiau arfer gorau mewn perthynas ag ymyriadau a help cynnar i deuluoedd yn sicrhau bod cymorth di-dor a phrydlon yn cyrraedd teuluoedd.

Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion diwylliannol y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant. Mae ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn amlwg ar y cyfan ac maent yn ymrwymedig i atgyfnerthu'r trefniadau darparu fel rhan o'r broses o gynllunio'r gweithlu. Gall digonolrwydd nifer yr ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio ar draws gwasanaethau plant fod yn amrywiol. Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol drefniadau ar waith i roi cymorth ac arweiniad i deuluoedd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Yn gyffredinol, ceir ymrwymiad i gefnogi plant drwy eiriolaeth, a phwyslais ar hynny. Mae llawer o wasanaethau plant yn neilltuo amser i weithio gyda darparwr gwasanaethau eirioli i sicrhau y caiff y gwasanaethau hynny eu cynnig mewn modd gweithredol. Mewn rhai achosion, gellid bod wedi hyrwyddo eiriolaeth yn well er mwyn galluogi lleisiau pobl i gael eu deall yn well. Niferoedd cymharol fach o blant a phobl ifanc sy'n mynychu eu cyfarfodydd amddiffyn plant.

Gwelsom gydberthnasau cadarnhaol rhwng Swyddogion Adolygu Annibynnol a thimau gwaith cymdeithasol, ac roedd cydbwysedd herio iach i'w weld ledled Cymru. Pan fo llwyth gwaith y Swyddog Adolygu Annibynnol yn rhy uchel, ceir effaith uniongyrchol ar ansawdd ei waith a cheir llai o gyfleoedd i ymgysylltu â phobl. O ganlyniad, ni chaiff plant a theuluoedd eu paratoi'n briodol ac ni fyddant yn deall arwyddocâd y materion pwysig sy'n cael eu trafod.

## Meysydd i'w gwella

Yn rhy aml, ni chynhelir digon o waith dadansoddi a myfyrio beirniadol fel rhan o'r broses o oruchwylio ymarferwyr. Er ein bod yn cydnabod efallai nad yw cryn dipyn o'r cymorth anffurfiol a ddarperir gan dimau awdurdodau lleol yn cael ei gofnodi o reidrwydd, gall fod diffyg amser gwarchodedig a buddsoddiad mewn prosesau goruchwylio o ansawdd. Mae'r ffaith bod rheolwyr ac ymarferwyr o dan bwysau amser gan eu bod yn rheoli llwyth gwaith cynyddol yn ffactor allweddol yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau bod amser gwarchodedig ar gael i helpu ymarferwyr i fyfyrio'n feirniadol ar effaith penderfyniadau ar blentyn a'r teulu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r prosesau goruchwylio yn fyfyriol, yn ystyried y cyswllt rhwng gwaith ymchwil ac ymarfer ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae dyletswyddau statudol fel trefnu cynadleddau amddiffyn plant ac ymweliadau â phlant mewn modd amserol yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol, ond i rai gall fod yn anodd sicrhau cydymffurfiaeth, yn aml oherwydd swyddi gwag a newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol (cydgysylltydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth). Mae'n hanfodol bod cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn monitro cydymffurfiaeth â'r cyfrifoldebau statudol hyn mewn ffordd gyson ac yn ymdrin ag unrhyw achosion fel y bo'n briodol. Nid yw'r maes ymarfer hwn bob amser yn cael y flaenoriaeth ofynnol.

Mae'r paragraff hwn yn adlewyrchu canfyddiadau'r **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant**. Caiff sgyrsiau am Yr Hyn sy'n Bwysig eu cofnodi yng nghofnodion y gwasanaethau cymdeithasol, ond gellid eu gwella drwy sicrhau gwell eglurder o ran beth sydd angen iddo ddigwydd er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Nid yw 'profiad bywyd' y plentyn bob amser yn amlwg mewn cofnodion. Yn aml, nid yw'r trefniadau ar gyfer gweithredu ac adolygu cynlluniau diogelwch ar y cyd yn glir. Mewn rhai sefyllfaoedd, ceir diffyg eglurder ynghylch pa asiantaethau sy'n gyfrifol am ymdrin â pha agweddau ar y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth. Gall pobl gael eu llethu gan restr o wasanaethau amlasiantaethol. Yn aml, ni chaiff cynlluniau eu diweddaru'n gyson mewn modd amserol yn dilyn newidiadau sylweddol. Mae'n amlwg bod angen gwella cysondeb o ran y ffordd y caiff y rhain eu cofnodi er mwyn sicrhau eglurder ynghylch risg, diogelwch a'r hyn y mae angen iddo ddigwydd er mwyn rhoi sicrwydd am ddiogelwch.

Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r ffaith nad yw cofnodion amddiffyn plant yn cael eu rhannu â'r grŵp craidd yn bryder parhaus. Gellid cryfhau trafodaethau strategaeth a grwpiau craidd drwy sicrhau bod dogfennau allweddol yn cael eu rhannu â'r rhai sy'n bresennol a phartneriaid absennol. Byddai hyn yn galluogi pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ddiweddariadau i gynlluniau a'u rôl wrth amddiffyn plant.



# Casgliad

Mae sylfaen partneriaethau amlasiantaethol da eisoes ar waith ledled Cymru drwy drefniadau strategol wedi'u harwain gan waith Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae arweinyddiaeth gadarn ac eglurder o fewn trefniadau llywodraethu gweithredol a strategol ar draws awdurdodau lleol, ysgolion, heddluoedd a byrddau iechyd yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol. Mae trefniadau cydweithio fel Ymgyrch Encompass a threfniadau i gydleoli staff timau drws ffrynt mewn rhai ardaloedd yn dangos sut y gall trefniadau partneriaeth fod yn effeithiol wrth hwyluso prosesau effeithiol ar gyfer cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth. Yn y pen draw, mae hyn yn arwain at well cyfleoedd i ddeall cyd-destun y teulu, i ddeall ffactorau risg a diogelwch perthnasol ac i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Mae amrywiaeth dda o wasanaethau help ac atal cynnar sydd wedi ymsefydlu'n gadarn ar gael i blant a theuluoedd. Ceir enghreifftiau o ddulliau amserol ac integredig sy'n darparu cymorth effeithiol i blant a'u teuluoedd.

Dylid cydnabod y gwaith eithriadol a wnaed gan ysgolion yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu amrywiaeth o ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae ysgolion yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig pwysig, gan gynnwys gwasanaethau i'r disgyblion hynny sy'n wynebu risg o niwed. Mae'r enghreifftiau arfer gorau i'w gweld pan fydd y disgyblion yn cael cymorth gweithredol i ymgysylltu â rhaglenni i ddiwallu eu hanghenion penodol. Gall staff ysgolion hefyd gynnig cymorth y gellir ymddiried ynddo i blant ac mewn llawer o achosion, maent yn cynnig cyswllt pwysig rhwng rhieni/gofalwyr a'r asiantaethau amddiffyn plant statudol.

Mae llawer o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r casgliadau allweddol a nodir yn yr **Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant** fel a ganlyn. Unwaith eto, maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau:

1. Pwysigrwydd dealltwriaeth a rennir o drefniadau partneriaethau diogelu ymhlith asiantaethau. Mae angen buddsoddi mwy o amser er mwyn sicrhau bod llwybrau clir ar gyfer hwyluso ymyriadau cynnar sy'n cynnwys eglurder o ran atal niwed. Dylid hyrwyddo hyn drwy sicrhau y caiff dogfennau trothwy eu deall yn glir a'u cymhwyso ar draws pob asiantaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn ymyriadau priodol ac amserol. Argymhellodd adolygiad cyflym 2023 y dylai byrddau diogelu rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gefnogi ymgyrch genedlaethol i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth a rennir o'r trothwyon a'r canllawiau perthnasol.
2. Nododd adolygiadau JICPA ac adolygiad cyflym 2023 ddull amrywiol o gynnal archwiliadau amlasiantaethol o agweddau allweddol ar ymarfer diogelu. Mae hyn yn golygu y gellir colli cyfleoedd myfyriol i nodi meysydd i'w datblygu ac arferion da.
3. Mae manteision integreiddio a chydleoli gwasanaethau 'drws ffrynt' (sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a / neu hwb diogelu amlasiantaethol) hefyd yn cael sylw cadarnhaol yn y ddau adolygiad. Maent yn nodi sut y gall hyn helpu i feithrin dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ac i gymhwyso trothwyon cyson.

4. Mae cyfarfodydd diogelu a drefnir yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn fforymau sefydledig ar gyfer rhannu gwybodaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y fforymau hyn yn anghyson. Yn rhy aml, nid yw'r broses o weithredu'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ar y cyd na'r broses o adolygu'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar risg a diogelwch. Mae cyfarfodydd grwpiau craidd yn fforymau y mae angen iddynt gynnal ffocws ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Amddiffyn.

5. Gall dealltwriaeth gywir o amgylchiadau teulu a phrofiad bywyd plant fod yn wan gan nad yw asesiadau a gaiff eu harwain gan wasanaethau plant yn aml yn ddigon manwl. Er y gall yr asesiadau nodi risgiau, yn aml ni chaiff dadansoddiadau mwy trylwyr eu cynnal ac nid yw'r effaith ar y plentyn yn glir. Dylai gwasanaethau plant yn y dyfodol ganolbwyntio ar sut i greu amser gwarchodedig i ymarferwyr medrus i'w galluogi i ddefnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol ac i fod yn fwy myfyriol wrth ymarfer.

6. Mae trefniadau gan awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i weithio mewn partneriaeth gydweithredol â theuluoedd yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol ac amserol. Mae'r modelau gorau o ymarfer amddiffyn plant yn hwyluso dealltwriaeth a rennir o'r broses o nodi a rheoli risgiau, a hynny gyda rhieni / gofalwyr ac ar draws asiantaethau. Pan gânt eu cymhwyso'n effeithiol, maent yn darparu ffocws parhaus ar yr hyn y mae angen ei newid er mwyn cael sicrwydd ynghylch diogelwch plentyn. Yn ogystal, mae pwyslais ar ddiogelwch yn sicrhau y gellir defnyddio'r cryfderau allweddol o fewn teuluoedd a'r gymuned i leihau'r risg o niwed yn y dyfodol. Argymhellodd adolygiad cyflym 2023 y dylid mabwysiadu model neu fframwaith ymarfer clir i gefnogi a gwella eglurder ymhlith ymarferwyr asiantaethau ynghylch gofynion a disgwyliadau ymarfer gweithredol.

7. Mae'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn rhwystr parhaus o ran gwaith amddiffyn plant effeithiol. Nododd adolygiad cyflym 2023 fod gan asiantaethau wahanol systemau cofnodi, a bod y diffyg cysylltiad rhwng y systemau yn cyfyngu ar brosesau rhannu gwybodaeth. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â'r byrddau iechyd, a llawn cymaint ag awdurdodau lleol a gwasanaethau addysg, i gomisiynu systemau TG canolog a hygyrch. Argymhellodd hefyd fod yn rhaid i wasanaethau plant gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r ddyletswydd i adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau.

8. Gall plant a rhieni wynebu llawer o newidiadau o ran eu gweithwyr cymdeithasol sy'n effeithio ar ansawdd eu cydberthnasau a'r gwaith pwysig a sensitif sy'n canolbwyntio ar y plentyn y mae angen ei wneud i ganfod safbwyntiau unigol y plentyn hwnnw. Mae ymarfer o'r fath i'w weld ond nid yn rheolaidd ledled Cymru. O ganlyniad, ni chaiff cyfleoedd i nodi llais y plentyn eu hadlewyrchu yn y broses asesu a gwneud penderfyniadau. Mae gwasanaethau plant yn parhau i wneud ymdrechion pendant i ymdrin â diffygion yn y gweithlu drwy wahanol strategaethau recriwtio a chadw staff.

# Beth nesaf

Rydym yn disgwyl i fyrddau diogelu rhanbarthol nodi'r gwersi pwysig i'w dysgu o'r adroddiad hwn ac i fwrw ati i ledaenu'r gwersi hynny ledled Cymru. I raddau helaeth, mae'r gwersi hyn yn ailadrodd y gwersi a nodwyd yn adolygiad cyflym 2023. Mae byrddau diogelu rhanbarthol, gan weithio ar y cyd â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, eisoes wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad cyflym. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle arall i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd ymarfer amddiffyn plant y mae angen eu gwella. Mae'n bwysig sicrhau y caiff y momentwm i wneud newidiadau mewn maes ymarfer mor bwysig, sef amddiffyn a diogelu plant, ei gynnal a'i lywio gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.



# Atodiad 1

Caiff y termau sy'n adlewyrchu'r cyfrannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn eu nodi isod:

| | | |
|---|---|---|
| Bron pob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| Llawer | = | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | = | dros 60% |
| Hanner | = | 50% |
| Tua hanner | = | yn agos i 50% |
| Lleiafrif | = | llai na 40% |
| Nifer bach | = | llai na 20% |
| Nifer bach iawn | = | llai na 10% |

# Atodiad 2: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant** | Mewn ymateb i nifer o farwolaethau trasig ymhlith plant ledled Cymru a Lloegr, ym mis Tachwedd 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arwain adolygiad cyflym amlasiantaethol o'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag amddiffyn. |
| **AGC** | *Arolygiaeth Gofal Cymru* |
| **A47** | O dan ***Adran 47*** o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny. |
| **BIPAB** | *Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan* |
| **BIPCU** | *Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* |
| **BIPCF** | *Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro* |
| **BIPCTM** | *Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg* |
| **CAMHS** | *Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed* |
| **CASPP** | *Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth* |
| **CLA** | *Plant sy'n Derbyn Gofal* |
| **CP / CPR** | *Amddiffyn Plant / Cofrestr Amddiffyn Plant* |
| **CPCC** | *Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant* |
| **DSL** | *Arweinydd Diogelu Dynodedig*<br>Yr unigolyn a benodir i fod yn bennaf cyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau). |
| **DTR** | At ddibenion Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae ***dyletswydd i adrodd (DTR)*** i'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeiriad at wasanaethau cymdeithasol y mae ganddynt, ochr yn ochr â'r heddlu, bwerau statudol i ymchwilio i achosion a amheuir o gam-drin neu esgeuluso. |
| **ED** | *Adran Achosion Brys* |

| | |
|---|---|
| **ELSA** | ***Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol***<br>Rhaglen ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol a gyflwynir gan staff hyfforddedig mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac UCDau. |
| **HIW** | ***Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*** |
| **HMICFRS** | ***Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi*** |
| **IDVAs** | ***Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol***<br>Unigolion sydd wedi'u hyfforddi i gynnig cyngor a chymorth arbenigol i ddioddefwyr cam-drin domestig. |
| **IRO's** | ***Swyddogion Adolygu Annibynnol*** |
| **JICPA** | ***Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant*** |
| **MARAC** | ***Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg***<br>Cyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol a gynhelir er mwyn trafod sut i helpu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i drais a cham-drin domestig. |
| **MARF** | ***Ffurflen (Atgyfeirio) Adrodd Amlasiantaethol*** |
| **MASH** | ***Hwb Diogelu Amlasiantaethol***<br>Pwynt cyswllt unigol ar gyfer pob pryder diogelu newydd. |
| **NPT** | ***Sir Castell-nedd Port Talbot*** |
| **PCCs** | ***Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu***<br>Eu nod yw gostwng troseddu a darparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon yn ardal eu heddlu. Cânt eu hethol gan y cyhoedd i ddwyn Prif Gwnstabliaid a'r heddlu i gyfrif, gan sicrhau bod swyddogion yr heddlu yn atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. |
| **PPN** | ***Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd*** |
| **PRU** | ***Uned Cyfeirio Disgyblion***<br>Math o ysgol a sefydlir ac a gynhelir gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc na fyddent o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, yn cael addysg o'r fath (adran 19 o Ddeddf Addysg 1996) |
| **Ymgyrch Encompass** | Partneriaeth rhwng yr heddlu, ysgolion ac UCDau. Un o egwyddorion ***Ymgyrch Encompass*** yw y dylid rhannu pob digwyddiad lle ceir achos o gam-drin domestig ag ysgolion ac UCDau, nid dim ond y digwyddiadau hynny lle y gellir nodi trosedd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfweliadau Dychwelyd Adref** | Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae gweithwyr plant coll yn y trydydd sector yn Gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu. Maent yn rhoi cymorth i blant sy'n bodloni'r meini prawf gwasanaeth ar gyfer darparu Cyfweliadau Dychwelyd Adref ac ôl-ofal. |
| **RSB** | ***Bwrdd Diogelu Rhanbarthol*** |
| **TAF** | ***Tîm o Amgylch y Teulu***<br>Gwasanaeth ymyriadau cynnar ac atal sy'n anelu at roi cymorth i deuluoedd i'w helpu i gyflawni eu nodau unigol drwy gynnig cyngor, arweiniad a chymorth. |
| **WSP** | ***Gweithdrefnau Diogelu Cymru***<br>Yn nodi manylion y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n hanfodol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. |